

Problem Ffractalau

Cyfarpar sydd eu hangen:

- Llawer o bapur A4 (tua 5 dalen i bob myfyriwr)
- Siswrn
- Lluniau o ffractalau


Cyfarwyddiadau:

- Rhowch siswrn a darn o bapur i'r myfyriwr.
- Gofynnwch iddyn nhw wneud twll yn y papur fel gallan nhw roi eu llaw trwyddo. Mae'n rhaid i'r papur sydd ar ôl ffurfio dolen gyfan.
- Rhowch ddarn newydd o bapur i'r myfyriwr.
- Gofynnwch i'r myfyriwr wneud twll fel gallan nhw roi eu pen trwyddo.

Eto mae'n rhaid i'r papur sydd ar ôl ffurfio dolen gyfan.

- Rhowch drydydd darn o bapur i'r myfyriwr.
- Gofynnwch i'r myfyriwr wneud twll fel gallan nhw roi eu corff cyfan trwyddo. Eto mae'n rhaid i'r papur sydd ar ôl ffurfio dolen gyfan.
- Os yw'r myfyriwr yn llwyddo, heriwch nhw i'w cael eu hunain a chymaint o'u ffrindiau ag sy'n bosibl trwy'r papur.

(ATEB: Yr ateb yw plygu'r papur yn ei hanner a gwneud toriadau bob yn ail ochr fel y dangosir yn y diagram)



Trafodaeth:

Gallai'r drafodaeth wedyn gynnwys:

- Newid perimedwr siâp heb newid yr arwynebedd.
- Ffractalau ac ambell ddelwedd o ffractalau
- Syniadau tebyg mewn natur, er enghraifft arwynebedd yr ysgyfaint a'r coluddyn.